CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

473/51

**HANES – HI3**

**UNED 3**

**ASTUDIAETH FANWL 1**

# CYMRU A GWLADWRIAETH Y TUDURIAID, tua 1534-1567

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn yn Adran A ac **un** cwestiwn yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Dylai'r amser a dreuliwch yn ateb cwestiwn gyfateb i'r marciau sydd ar gael amdano.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 3

## ASTUDIAETH FANWL 1

## CYMRU A GWLADWRIAETH Y TUDURIAID, tua 1534-1567

*Atebwch* **un** *cwestiwn yn Adran A ac* **un** *cwestiwn yn Adran B.*

### ADRAN A

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

**1. Newid crefyddol yng Nghymru, 1534-1567**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

'Yn gymaint â bod ei Mawrhydi, y Frenhines oruchelaf, fel Tywysog duwiolaf a mwyaf rhinweddol, a chanddi'r prif barch a hoffter i anrhydedd a gogoniant Duw, ac iechyd eneidiau ei deiliaid, ym mlwyddyn gyntaf ei theyrnasiad, trwy awdurdod ei huchel lys y senedd, wedi gosod allan Lyfr Gweddi Gyffredin a Threfn Gweinyddu'r Sagrafennau yn iaith y wlad, i'w defnyddio drwy ei theyrnas Lloegr, Cymru a'r Gororau fel, trwy hynny, y gallai deiliaid mwyaf cariadus ei Mawrhydi, gan ddeall yn eu hiaith eu hunain y bygythiadau dychrynllyd ac ofnadwy a ymarferir yn Llyfr Duw yn erbyn y drygionus, yr addewidion hyfryd a wneir i'r praidd dethol, gyda threfn gyfiawn i reoli ac arwain eu bywydau yn ôl gorchmynion Duw, ddysgu'n llawer gwell i garu ac ofni Duw, i wasanaethu ac ufuddhau eu tywysog, ac i wybod eu dyletswyddau tuag at eu cymdogion; a'r Llyfr hwn a dderbyniwyd fel perl fwyaf gwerthfawr â llawenydd anhraethadwy gan yr holl o'i deiliaid a ddeallai ac a ddeall yr iaith Saesneg. Iaith yw hon nas deellir gan fwyafrif deiliaid mwyaf cariadus ac ufudd ei Mawrhydi sy'n trigo yng Nghymru, dominiwn a gwlad ei Huchelder, nad yw'n rhan fechan o'r deyrnas hon, y rhai sydd felly wedi eu hamddifadu o Air Sanctaidd Duw, ac sy'n parhau yn yr un tywyllwch ac anwybodaeth neu mewn mwy o dywyllwch ac anwybodaeth nag yr oeddynt yn amser Pabyddiaeth. Deddfer felly fod y Beibl cyflawn, yn cynnwys y Testament Newydd a'r Hen, ynghyd â'r Llyfr Gweddi Gyffredin yn cael ei gyfieithu'n gywir a manwl i'r iaith Brydeinig neu Gymraeg.'

[O'r Ddeddf Seneddol i Gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg (1563)]

*(a)* Eglurwch **yn gryno** ystyr yr ymadrodd 'yn amser Pabyddiaeth' (llinell 15). [4]

*(b)* Beth mae'r ffynhonnell yn ei awgrymu am y rhesymau pam roedd angen cyfieithiad o'r Beibl i'r Gymraeg? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell i ddeall newid crefyddol yng Nghymru, 1534-1567? [20]

*(Yn eich ateb fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*

**2. Gweithgaredd economaidd a newid cymdeithasol yng Nghymru, 1534-1567**

*Astudiwch y ffynhonnell isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arni.*

‘A bu i’r Tywysog aruchelaf, y Brenin Harri’r wythfed, ryddhau’r Cymry yn gyfan gwbl o bob caethiwed a’u gwneud ym mhob peth yn gydradd â’r Saeson. Trwy ba un y digwyddodd eu bod hwy, wedi iddynt osod o’r neilltu eu hen arferion, y rhai a oedd o’r blaen yn arfer byw’n fwyaf cynnil, wedi eu cyfoethogi ac yn efelychu’r Sais mewn bwyd a dillad. Sut bynnag, maent ychydig yn ddiamynedd i lafurio ac yn ymffrostio ym mawredd eu tras, yn ymroi eu hunain yn hytrach i wasanaethu pendefigion nag ymroi eu hunain i ddysgu crefftau a masnachu. Yn awr canfyddwch lawer o bendefigion yn Lloegr y mae mwyafrif eu gosgordd *(retinue)* yn Gymry. Oblegid mae dynion a fagwyd yn bennaf ar laeth a chigoedd, ac sy’n ysgafndroed a chadarn o gorff, yn dueddol iawn o wneud unrhyw fath o fusnes. At hynny, mae’r dynion hyn, sydd braidd yn uchelfrydig ac mewn tlodi eithafol, ac yn cydnabod pendefigaeth eu teulu, yn tueddu fwy tuag at ddiwylliant na chyfoeth, a chan eu bod yn barod iawn i ddysgu ymddygiad llysaidd *(courtlike)*, felly maent yn fwy derbyniol gan Saeson pendefigol na Saeson. Sut bynnag hefyd, yn ddiweddar, maent yn glodwiw iawn wedi dechrau trigo mewn trefi a chyflawni pob math arall o weithgarwch cyhoeddus ac angenrheidiol, cystal â Saeson.

Ac mewn un peth nid oes dyn mor dlawd nad yw am ryw gyfnod yn anfon ei blant i ysgol, a’r rhai sy’n elwa o’u hastudiaeth fe’u hanfonir i’r Prifysgolion lle, ar y cyfan, y gorfodir hwy i astudio’r Gyfraith Sifil. Trwy hyn, y tebyg yw mai Cymry yw’r mwyafrif o’r rheini sy’n proffesu’r Gyfraith Sifil neu Gyfraith Gwlad yn y deyrnas hon.’

[Humphrey Llwyd, bonheddwr ac ysgolhaig, yn ysgrifennu yn ei lyfr
*The Breviary of Britayne* (1573)]

*(a)* Eglurwch **yn gryno** ystyr yr ymadrodd ‘ymddygiad llysaidd’ (llinell 11). [4]

*(b)* Beth mae’r ffynhonnell yn ei awgrymu am agwedd y boneddigion tuag at ddiwylliant Cymru? [8]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw’r ffynhonnell i ddeall gweithgaredd economaidd a newid cymdeithasol yng Nghymru, 1534-1567? [20]
*(Yn eich ateb fe’ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â’r wybodaeth a geir yn y ffynhonnell.)*



**Trosodd.**

## Adran B

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

### 3. Newid gwleidyddol yng Nghymru hyd at 1543

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

Ffynhonnell A

'Mae cyni *(distress)* y bobl yn anghredadwy, yn arbennig y Cymry, a thrwy Ddeddf Seneddol y mae'r Brenin newydd ddiddymu eu cyfreithiau, arferion a breintiau brodorol hwy.'

[Eustace Chapuys, Llysgennad yr Ymerodraeth Rufeinig Sanctaidd a beirniad o Ddiwygiad crefyddol Harri VIII, mewn adroddiad dan sêl i'w feistr Siarl V (1536)]

Ffynhonnell B

'Ni fu Cymru erioed mewn gwell trefn. Ers y Nadolig ni chlywaf am na lladrad, terfysgoedd, llofruddiaethau na dynladdiad. Yng Nghymru, mae popeth mewn trefn ac yn dawel fel y mae hi'n awr yn Lloegr.'

[Rowland Lee, Arglwydd Lywydd Cyngor Cymru, mewn adroddiad swyddogol at Thomas Cromwell, gweinidog mwyaf blaenllaw Harri VIII (1538)]

Ffynhonnell C

'Dangosodd y Brenin Harri ddoethineb rhagorol pan benderfynodd na ddylai fod gwahaniaeth mewn cyfreithiau ac iaith rhwng ei ddeiliaid yng Nghymru a'i ddeiliaid yn Lloegr.'


[William Salesbury, ysgolhaig Cymraeg Protestannaidd, yn ysgrifennu yn y rhagarweiniad i'w *Dictionary in Englyshe and Welshe* (1547)]

Ffynhonnell CH

'Yn hydref hwyr a gaeaf cynnar 1536-1537 wynebodd Harri VIII yr her fwyaf i'w rym. Mewn amser pan nad oedd unrhyw ffordd arall o fynegi protest, mae'r gwrthryfel Pererindod Gras yn cynrychioli anfodlonrwydd ar raddfa fawr â'r llywodraeth.'

[Nicholas Fellows, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes cymdeithasol, yn ysgrifennu yn ei lyfr *Disorder and Rebellion in Tudor England* (2001)]

Ffynhonnell D




[Map modern yn dangos siroedd Cymru wedi'r Deddfau Uno, 1536-1543]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau B ac CH. Sut mae Ffynonellau B ac CH yn dangos safbwyntiau gwahanol am gyfraith a threfn a oedd yn effeithio ar Gymru a'r Wladwriaeth Duduraidd? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau A ac C. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau A ac C fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio'r Deddfau Uno? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau hyn i ddeall newid gwleidyddol yng Nghymru hyd at 1543? [24]
*(Yn eich ateb fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*

 **Trosodd.**

## 4. Llywodraeth Cymru, 1543-1567

*Astudiwch y ffynonellau isod yn ofalus, ac yna atebwch y cwestiynau a seiliwyd arnynt.*

Ffynhonnell A

'Bu i oruchwyliaeth ar faterion *(affairs)* gan y Cyngor yn y Gororau rwystro'r boneddigion sirol rhag rheoli'n llwyr â llaw rydd; ac fe ymddengys i wyrdroadau *(perversions)* gwaethaf cyfiawnder gael eu hatal.'

[Penry Williams, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes gwleidyddol,
yn ysgrifennu mewn gwerslyfr hanes, *Tudor Wales* (1988)]

Ffynhonnell B

'Yn y tair sir hyn a enwir Caernarfon, Môn a Meirionnydd, trwy ddoethineb a dyfalbarhad *(diligence)* gofalus Mr George Bromley, Prif Ustus, mae'r bobl yn byw mewn cryn ufudd-dod, rhyddid a thawelwch.'

[Nicholas Robinson, Esgob Bangor, mewn llythyr preifat at Syr William Cecil,
prif ysgrifennydd y Frenhines Elisabeth (1567)]

Ffynhonnell C

'Yn nheyrnasiad y ddiweddar Frenhines, bu Cymry mewn ofn (ac nid oedd ein hofnau'n ofer) yn barhaol, a heb seibiant, o gael eu herlyn yn y llysoedd oherwydd bod nifer y clercod, twrneiod a chyfreithwyr anghenus eraill yn y Cyngor yn y Gororau wedi cynyddu cymaint mewn nifer.'

[Syr William Vaughan, tirfeddiannwr ac ysgolhaig, yn adolygu hanes Cyngor Cymru a'r Gororau
yn amser ei daid, yn ei sylwebaeth gyffredinol, *The Golden Fleece* (1626)]

Ffynhonnell CH

'Anogwyd pobl anwybodus sir Gaernarfon gan y diffynnydd i gynorthwyo'r môr-ladron sy'n defnyddio Ynys Enlli fel eu prif bencadlys. Cludir ysbail y môr-ladron oddi yno i Gaer a'i werthu yno yn y marchnadoedd a'r ffeiriau. Mae'r diffynnydd yn ŵr o ymddangosiad da, yn dra grymus a chanddo allu a chyfeillgarwch yn y sir, fel na fydd neb yn ei wrthwynebu ef na'i ddynion, ac ni fydd unrhyw reithgor yn eu barnu'n euog.'

[O restr o gyhuddiadau yn erbyn John Wyn ap Hugh, prif gapten môr-ladron Ynys Enlli,
yn llys Siambr y Seren (tua 1568)]

Ffynhonnell D



[O lun o'r cyfnod yn dangos Agoriad Swyddogol y Senedd (1563)]

*(a)* Cymharwch Ffynonellau B ac CH. Sut mae Ffynonellau B ac CH yn dangos safbwyntiau gwahanol am gyflwr cyfraith a threfn yng ngogledd Cymru? [8]

*(b)* Astudiwch Ffynonellau A ac C. Pa mor ddibynadwy yw Ffynonellau A ac C fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio Cyngor Cymru a'r Gororau? [16]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau hyn i ddeall llywodraeth Cymru yn y cyfnod 1543-1567? [24]
*(Yn eich ateb fe'ch cynghorir i ddefnyddio gwybodaeth gefndirol berthnasol yn ogystal â'r wybodaeth a geir yn y ffynonellau.)*